Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

---

9 Mawrth/March, 2016

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar ddydd Mawrth, 15 Mawrth 2016 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 10.00 o'r gloch y.b. i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Dr. Gwynne Jones*
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on Tuesday, 15 March, 2016 to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 10.00 a.m., to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Dr. Gwynne Jones*
**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary :** Dr. Gwynne Jones **Trysorydd/Treasurer :** Mr. R. Marc Jones
**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 27 Ionawr, 2016.

3 **CYLLIDEB 2016/17** (Tudalennau 5 - 6)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

4 **ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL** (Tudalennau 7 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau a'u mabwysiadu, lle bo angen, gofnodion y cyfarfodydd fel â ganlyn :-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 24 Chwefror, 2016.
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 3 Mawrth, 2016.

5 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 11 - 12)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

6 **DYFARNIADAU GRANT MAWR - 2016** (Tudalennau 13 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

7 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 15 - 16)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

8 **GRANT I GYMDEITHAS SIOE AMAETHYDDOL YNYS MÔN** (Tudalennau 17 - 18)

Cyflwyno adorddiad gan y Trysorydd.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Victor Hughes (Cadeirydd)<br>T. Ll Hughes (Is-gadeirydd)<br><br>Lewis Davies, R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, KP Hughes, DR Hughes, WT Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, HE Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, RG Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts, PS Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas ac Ieuan Williams |
| **YN BRESENNOL:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt o hyn ymlaen wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Cyfrifydd Rheoli Cyfalaf a Trysorlys (GJR),<br>Swyddog Caffael (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | R Ll Jones, A M Jones, G O Jones, Richard Owain Jones, R.Meirion Jones a J A Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

Dywedodd Mr Dylan Rees fod y Byd yn coffáu’r Holocost ar 27 Ionawr ac y byddai o’r herwydd yn briodol i Aelodau a Swyddogion yr Ymddiriedolaeth Elusennol sefyll am funud o dawelwch fel arwydd o barch. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion am funud o dawelwch fel arwydd o barch.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd Mr. Dylan Rees ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 - Proses Dyfarnu Grantiau 2016/17 (Menter Gymdeithasol Llangefni).

Datganodd Mr. T. V. Hughes ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 - Proses Dyfarnu Grantiau 2016/17 (Menter Gymdeithasol Llangefni).

Datganodd Mrs Nicola Roberts ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 - Proses Dyfarnu Grantiau 2016/17 (Menter Gymdeithasol Llangefni) ond nododd nad oedd hi’n ymwneud â'r prosiect ond ei bod wedi rhannu gwybodaeth am y fenter ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dywedodd nifer o aelodau'r Ymddiriedolaeth eu bod yn aelodau o Bwyllgorau lleol ar gyfer codi arian i’r Eisteddfod yn eu cymunedau a rhoes yr Aelodau sylw i gyngor y Swyddog Monitro, sef y gallent gymryd rhan yn y drafodaeth gyda’r egwyddor mai Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod fyddai’n cyflwyno’r cais. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol bod datgan diddordeb personol yn unig yn caniatáu i aelodau gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio ar yr eitem. Byddai union natur

diddordebau’n y dyfodol yn dibynnu ar amgylchiadau'r aelod unigol pan fydd cais y cais am gyfraniad ariannol tuag at yr Eisteddfod a gynhelir yn Ynys Môn yn 2017 yn cael ei dderbyn. Pan fydd cais swyddogol am gyllid yn dod i law gan Bwyllgor yr Eisteddfod, ac unrhyw Aelod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn aelod o Bwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai'n briodol ymgynghori gyda'r Adain Gyfreithiol bryd hynny i gael cyngor ar y mater.

## 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr, 2015.

## 3 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014/15

Cyflwynwyd – yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2014/15 gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Swyddog / Adran 151 ar gyfer ei fabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y dyrannwyd grantiau i 67 sefydliad gan ddefnyddio'r meini prawf sefydledig a bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn ffynhonnell bwysig o gyllid ar gyfer elusennau lleol, chwaraeon a sefydliadau gwirfoddol. Roedd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i gyllido oriel gelf Oriel Ynys Môn a nodwyd y gweithgareddau a gynhelir yn yr Oriel yn yr adroddiad. Roedd yr Aelodau o’r farn y dylai’r 'Datganiad o Weithgareddau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2015' ar dudalen 5 yr adroddiad, gynnwys, dan y cyfeiriad at Weithgareddau Elusennol (Grantiau i hyrwyddo amcanion yr Elusen) gyfeiriad at Oriel Ynys Môn dan y pennawd ‘Cyngor Sir Ynys Môn’.

Mae perfformiad buddsoddi portffolio yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi arwain at incwm buddsoddiad o £ 536,824, sydd £ 136,824 yn uwch na'r targed o £ 400,000. Mae cyfanswm portffolio yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn werth dros £ 20 miliwn sy'n cynnwys y £3 miliwn a gafwyd yn sgil gwerthu'r tir yn Rhosgoch.

Cafodd aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn falch gyda pherfformiad y portffolio ond holwyd beth oedd y sefyllfa o ran yr incwm buddsoddi yn dilyn y cwymp yn ddiweddar yn y marchnadoedd ariannol ar lefel fyd-eang. Dywedodd y Trysorydd fod HSBC Investment Management wedi cyflwyno adroddiad yn ddiweddar i'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau yn dweud bod y portffolio yn perfformio'n dda er gwaethaf y cwymp yn y farchnad ariannol. Nododd bod y portffolio wedi cael ei wasgaru dan wahanol feini prawf buddsoddi ac mewn marchnadoedd byd-eang.

Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r grant a roddir i Oriel Ynys Môn bob blwyddyn. Mewn ymateb, dywedodd yr Ysgrifennydd bod Panel wedi cael ei sefydlu fel y gall y Cyngor Sir drafod y Gwasanaeth Diwylliant yn ei gyfanrwydd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2014/2015 ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi’r fersiwn derfynol.**

Ymataliodd Mr. Jeff Evans a Mrs. Nicola Roberts rhag pleidleisio.

## 4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei datgelu a honno’n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm. "**

## 5 PROSES GRANT DYFARNU 2016/17

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r broses o ddyrannu grantiau i'r gwahanol gategorïau o grantiau ac i benderfynu ar y broses ar gyfer asesu dyfarniadau.

Amlinellodd y Trysorydd sefyllfa ariannol bresennol yr Ymddiriedolaeth Elusennol a rhoes adroddiad ar y meini prawf cymhwyso cyfredol ar gyfer grantiau a'r tri phrif faes sy'n derbyn grantiau yn flynyddol. Nododd ymhellach fod yr Ymddiriedolaeth hefyd yn ariannu grantiau mwy fel ceisiadau unwaith ac am byth. Dywedwyd ei bod yn ymddangos bod mwy o geisiadau am grantiau mwy wedi cael eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn ddiweddar. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth Elusennol fod yn hyderus bod y sefydliadau sydd wedi derbyn grantiau gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn hyfyw ac yn gynaliadwy ar ôl hynny. Roedd tabl o fewn yr adroddiad yn dangos yr ymrwymiadau yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi eu rhoddi ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

Dywedodd y Trysorydd ymhellach bod Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi gofyn am fanylion ynghylch effaith defnyddio twf arian cyfalaf i ariannu grantiau yn 2016/17 - 2020/21. Cafodd tabl yn dangos effaith ragdybiedig defnyddio twf cyfalaf o 5%, 10% a 20% ei gylchredeg yn y cyfarfod.

Nodwyd y bydd angen mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodaeth yr Ymddiriedolaeth Elusennol, h.y. 20 o aelodau i ganiatáu gwario arian cyfalaf yr Ymddiriedolaeth. (Pleidleisiodd 21 o aelodau'r Ymddiriedolaeth o blaid yr argymhelliad fel y nodir isod).

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cytuno mewn egwyddor i ddefnyddio'r arian cyfalaf i gyfrannu at y swm sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu fel grantiau ond y byddai lefel y cyfraniad yn cael ei asesu bob blwyddyn gan y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau a fyddai'n gwneud argymhelliad i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn;**
- **Anrhydeddu'r ymrwymiadau tymor hir a wneir i Menter Môn, Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd, yr Urdd a Ffermwyr Ifanc Ynys Môn;**
- **Parhau i roddi swm o £ 215,000 i Oriel Ynys Môn tan ddiwedd 2016/17, pryd y bydd yr adolygiad o'r Gwasanaeth Diwylliant yn cael ei gwblhau;**
- **Rhoddi i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol y swm o £ 80,000 sef y gyllideb bresennol tuag at grantiau ar gyfer Neuaddau Pentref a £ 125,000 tuag at Gyfleusterau Chwaraeon a Chymunedol. Bydd dyrannu grantiau i sefydliadau unigol yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn;**
- **Dyrannu £ 200,000 tuag at y Pwyllgor Adfywio ar gyfer ystyried ceisiadau a dderbynnir am grantiau mwy. Bydd dyrannu grantiau i sefydliadau unigol yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn.**

## 6 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei datgelu a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A (Paragraffau 13, 14 a 16) y Ddeddf honno."**

## 7 CYFREITHWYR ALLANOL

Dywedodd yr Ysgrifennydd bod y Panel a sefydlwyd i drafod llywodraethu a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol wedi cael ei gynnull i werthuso'r cynigion a dderbyniwyd gan gwmnïau addas o Gyfreithwyr Arbenigol.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol adroddiad cefndir i'r Ymddiriedolaeth ar y broses a ddilynwyd gan y Panel a’r cynigion a dderbyniwyd.

**PENDERFYNWYD awdurdodi'r Panel i gyfweld y Cyfreithwyr arbenigol ac i adrodd yn ôl i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn maes o law.**

**Mr. T. Victor Hughes**
**Cadeirydd**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN |
| DYDDIAD: | 15 MAWRTH 2016 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | CYLLIDEB 2016/17 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | CYLLIDEB AMLINELLOL |
| ADRODDIAD GAN: | TRYSORYDD YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN |
| GWEITHREDU: | MABWYSIADU'R GYLLIDEB A DIRPRWYO SWM I'W DDYRANNU I GRANTIAU BLYNYDDOL |

## 1. Crynodeb

**1.1** Mae'n rhaid wrth yr adroddiad hwn i gadarnhau dyraniadau cyllido 2016/17 ac i ddirprwyo pwerau cyllido ar gyfer cyfleusterau cymunedol a chwaraeon a grantiau bychan i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, a'r grantiau mwy i'r Pwyllgor Adfywio.

**1.2** Yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth i :-

- Ddyrannu £215k yn 2016/17 i Oriel Ynys Môn;
- Dyrannu £80k yn 2016/17 i Neuaddau Pentref;
- Dyrannu £125k yn 2016/17 i Gyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan (y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gael yr awdurdod dirprwyedig i wneud y dyraniadau grant yma);
- Dyrannu £200k yn 2016/17 i grantiau mwy (y Pwyllgor Adfywio i gael yr awdurdod dirprwyedig i wneud y dyraniadau grant yma); ac
- Anrhydeddu'r ymrwymiadau tymor hir a wnaed i Menter Môn, Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd, Yr Urdd a Ffermwyr Ifanc Ynys Môn.

## 2. Gwerth Portffolio ac Incwm Buddsoddi Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn 2016/17

- Gwerth presennol y Portffolio yw £19,901,332, a disgwylir i'r portffolio gynyddu 3.3%, sy'n rhagolygu y bydd gwerth y Portffolio yn £20,558,075 yn 2016/17;
- Rhagolygon diweddaraf yr Incwm Buddsoddi ar gyfer 2016/17 yw £618,285;
- Rhagolygon Ffioedd Rheoli ar gyfer 2016/17 yw £42,000;
- Roedd diffyg o £7,302 yn yr Arian Wrth Gefn wedi eu cario ymlaen o 2014/15.

## 3. Symudiadau yn Arian Wrth Gefn yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

| | 2015/16 £000 | 2016/17 £000 |
|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi | 560 | 618 |
| Llai ffioedd rheoli buddsoddi | (40) | (42) |
| Ar gael i wario | 520 | 576 |

**Gwariant Grant**

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm Gwariant | 738 | 840 |

**Symudiadau yn yr Arian Wrth Gefn**

| | | |
|---|---|---|
| I/(O) Arian Wrth Gefn | (218) | (264) |
| Arian dros ben / (Diffyg) a Ragolygwyd ar ddiwedd y flwyddyn | (225) | (489) |

4. **Cynnig Cyllideb 2016/17 yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn**

| **Math o Grant** | **Cyllideb £'000** |
|---|---|
| Oriel Ynys Môn | 215 |
| Neuaddau Pentref | 80 |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan | 125 |
| Grantiau Mwy | 200 |
| Ymrwymiadau Tymor Hir:- | |
| Ffermwyr Ifanc Ynys Môn | 30 |
| Urdd Gobaith Cymru | 40 |
| Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd Môn | 40 |
| Menter Môn | 110 |
| | 840 |

5. **Y Cylch Cyllido 2016/17**

Cynigir cyhoeddi hysbysebion am grantiau blynyddol i'w dyfarnu gan y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yng nghanol mis Mawrth 2016, gyda dyddiad cau o 6 Mai 2016 ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Gweler Rhan 6(a) ar gyfer y gyllideb a argymhellir.

6. **Argymhellion**

**(a)** Mabwysiadu'r gyllideb am 2016/17 fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Oriel Ynys Môn | £215k |
| Neuaddau Pentref | £ 80k |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan | £125k |
| Grantiau Mwy | £200k |
| Ymrwymiadau Tymor Hir parhaus (wedi eu torri lawr yn nhabl 3) | £220k |

**(b)** Dirprwyo swm o £125k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i ddelio gyda cheisiadau ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan.

**(c)** Dirprwyo swm o £200k i'r Pwyllgor Adfywio i ddelio gyda cheisiadau ar gyfer grantiau mwy.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD –**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **8 MAWRTH 2016**

# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Mri. John Griffith, D R Hughes, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, R G Parry OBE ac Alwyn Rowlands |
| **WRTH LAW:** | Y Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri. William Thomas Hughes, J Arwel Roberts a Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Ailetholwyd Mr. Bob Parry OBE yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ailetholwyd Mr. Derlwyn R. Hughes yn Is-gadeirydd

**3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr. R. Meirion Jones ddiddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas â cheisiadau grant gan Gwmni'r Frân Wen a'r Eisteddfod Genedlaethol a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau hynny.

Datganodd Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn – ddiddordeb personol a rhagfarnus yn y ceisiadau grant gan yr Eisteddfod Genedlaethol a Menter Gymdeithasol Llangefni a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau hynny.

Dywedodd sawl aelod o'r Pwyllgor eu bod yn aelodau o Bwyllgorau Apêl Cyllid Eisteddfod leol yn eu cymunedau. Dywedodd y Trysorydd mai'r cyngor a gafwyd gan y Swyddog Monitro oedd y dylent ddatgan diddordeb ond y gallent gymryd rhan a phleidleisio.

**4 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm. "**

## 5 CEISIADAU GRANT MAWR 2016/17

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â cheisiadau grant a dderbyniwyd gan bedwar sefydliad.

Dywedodd y Trysorydd fod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2016, wedi penderfynu ariannu'r ymrwymiadau cyfredol o £660k a dyrannu hyd at £200k o adnoddau cyfalaf i ariannu ceisiadau am grantiau mawr. Nodwyd bod angen asesu pob cais yn unol â'r weithdrefn a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol ar 22 Medi 2015, a oedd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad, ac yn unol â'r meini prawf ychwanegol a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol ar 27 Ionawr 2016 fel a ganlyn:-

- **Cynaliadwyedd** – rhaid i'r ymgeisydd ddangos y gall y prosiect barhau heb gyllid grant pellach h.y. y gellir ariannu'r costau cyfalaf unwaith y bydd y prosiect yn weithredol yn achos grantiau cyfalaf ac y gall y prosiect barhau heb gymorth ychwanegol gan yr Ymddiriedolaeth yn achos grantiau refeniw
- **Budd** – rhaid i'r ymgeisydd ddangos sut bydd y prosiect o fudd i drigolion Ynys Môn;
- **Gwerthuso** – rhaid i'r ymgeisydd ddarparu manylion am y meini prawf llwyddiant ar gyfer y prosiect a sut y byddant yn cael eu mesur.

Cynhaliodd y Pwyllgor werthusiad manwl o'r pedwar cais a dderbyniwyd **a PHENDERFYNWYD:-**

- **Cefnogi, mewn egwyddor, y ceisiadau grant a dderbyniwyd gan Fenter Gymdeithasol Llangefni ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru;**
- **Gwahodd cynrychiolwyr o Gwmni'r Frân Wen a Menter Iaith Môn i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Adfywio i'r fynd i'r afael â materion a godwyd gan y Pwyllgor;**
- **Y bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar lefel y dyraniad grant yn y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Adfywio sydd i'w gynnal ar 3 Mawrth, 2016.**

**Mr. Bob Parry OBE**
**Cadeirydd**

# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr. Bob Parry OBE (Cadeirydd)<br>Mr. D R Hughes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Mri. John Griffith, R. Meirion Jones, Alwyn Rowlands.<br><br>Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br>Mr. T. Ll Hughes – Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |
| **WRTH LAW:** | Y Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri. Carwyn Jones, Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynrychiolwyr o'r 2 sefydliad a wahoddwyd i fynychu mewn perthynas â'u ceisiadau am grant. |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr. R. Meirion Jones ddiddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas â cheisiadau grant gan Gwmni'r Frân Wen a'r Eisteddfod Genedlaethol a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau hynny.

Datganodd Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn – ddiddordeb personol a rhagfarnus yn y ceisiadau grant gan yr Eisteddfod Genedlaethol a Menter Gymdeithasol Llangefni a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau hynny.

**2 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm. "**

**3 CEISIADAU GRANT MAWR 2016/17**

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor, yn y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 24 Chwefror, 2016, wedi gofyn am gyflwyniad gan 2 o'r 4 sefydliad a oedd wedi cyflwyno ceisiadau am grant ynghylch materion yr oedd y Pwyllgor wedi eu codi.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y ddau sefydliad.

Yn dilyn trafodaethau manwl, **PENDERFYNWYD argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn yn ei gyfarfod i'w gynnal ar 15 Mawrth, 2016 -**

- **Y dylid cefnogi'r 4 cais am grant a dderbyniwyd;**
- **Bod y Trysorydd yn cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn gyda'r swm a argymhellir fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Adfywio;**
- **Na fydd ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau, sef 10 Chwefror, 2016, yn cael eu hystyried.**

**Mr. Bob Parry OBE**
**Cadeirydd**

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(CEISIADAU GRANTIAU MAWR 2016/17 / MAJOR GRANT APPLICATIONS 2016/17)***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r adroddiad sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth masnachol sensitif<br><br>The attached report contains commercial sensitive information | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n dal y wybodaeth).<br><br>Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information). |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(CAIS GRANT CYMDEITHAS SIOE AMAETHYDDOL MÔN /***
***GRANT APPLICATION ANGLESEY AGRICULTURAL SHOW SOCIETY)***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r adroddiad sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth masnachol sensitif<br><br>The attached report contains commercial sensitive information | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n dal y wybodaeth).<br><br>Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information). |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank